Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 20.06.22 |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar absenoldeb disgyblion o ysgolion** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

**Cyflwyniad**
Er ei bod hi'n anodd mesur effaith y pandemig ar absenoldeb yn fanwl gywir, mae ein hymateb yn amlygu rhai pwyntiau pwysig a allai lywio datblygiad polisi a'r defnydd ar adnoddau.

Mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar bresenoldeb (ac, oherwydd cydberthyniadau hysbys, lles, dysgu a chyrhaeddiad) grwpiau penodol o ddysgwyr, er enghraifft:

- Dysgwyr iau nag oedran ysgol statudol
- Dysgwyr yn y grwpiau blwyddyn hŷn mewn addysg uwchradd
- Dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol
- Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

Mae bron i ddwywaith gymaint o ddysgwyr yn cael addysg ddewisol yn y cartref nawr nag oedd cyn y pandemig, ac mae nifer y dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ar draws Cymru bellach tua maint cyfanswm poblogaeth ysgolion mewn awdurdod lleol bach. Achosodd y pandemig oedi i ganllawiau statudol i awdurdodau lleol ar addysg gartref ond mae ei angen ar frys i sicrhau bod dysgwyr sy'n cael addysg gartref yn cael addysg addas a chefnogaeth ar gyfer eu hanghenion dysgu a lles.

Cafodd llawer mwy o ddysgwyr raddau U mewn TGAU Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn 2021 o gymharu â'r flwyddyn gynt, ac mae mwy o risg i'r dysgwyr hyn beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y blynyddoedd i ddod.

Mae lles dysgwyr yn bryder o hyd ac yn ffactor cyfrannol tebygol wrth wraidd y lefelau absenoldeb uwch na chyn y pandemig, ar ôl peidio â chyfrif am absenoldeb o ganlyniad i Covid-19. Er bod cyllid ar gyfer gwasanaethau cwnsela wedi cynyddu i ateb y galw cynyddol, fe wnaeth y gwasanaethau gwnsela llai o ddysgwyr yn 2020-2021 mewn gwirionedd nag yn y flwyddyn cyn y pandemig. At hynny, mae amseroedd aros am CAMHS arbenigol i ddysgwyr â phroblemau iechyd meddwl sylweddol wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ers Mehefin 2021, mae dros hanner y dysgwyr a gyfeiriwyd at CAMHS wedi bod yn aros mwy na'r 4 wythnos darged am eu hapwyntiad cyntaf.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Rhesymau**
Lefelau absenoldeb cyson a'r rhesymau dros hynny.
P'un a yw absenoldebau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID yn uwch nag yr oeddent cyn pandemig COVID 19, ac os felly, pam.
P'un a yw absenoldeb cyson yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau penodol o ddisgyblion ac os felly, y rhesymau dros hynny

**Absenoldeb cyson**


Mae presenoldeb mwy o ddisgyblion o lawer yn bodloni'r diffiniad o absenoldeb cyson (presenoldeb sy'n llai na 80%) eleni na'r arfer. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad uniongyrchol i absenoldeb yn gysylltiedig â Covid-19 - naill ai oherwydd bod absenoldeb oherwydd Covid-19 ynddo'i hun yn ddigon i fynd â phresenoldeb disgybl islaw 80% neu oherwydd absenoldebau oherwydd Covid-19 ynghyd ag absenoldebau am resymau eraill (e.e. salwch arall).

I nifer fach o ddisgyblion, cafwyd effaith hirdymor ar eu lles emosiynol neu eu hiechyd meddwl o ganlyniad i'r pandemig, i'r graddau ei fod wedi achosi iddynt fod yn absennol yn gyson. Byddai hyn yn cynnwys disgyblion, er enghraifft, a gafodd hi'n anodd mynd yn ôl i drefn ysgol a disgyblion â lefelau uchel o orbryder. Mae absenoldeb o'r fath yn annhebygol o gael ei gofnodi'n 'salwch oherwydd Covid-19', felly bydd hyn yn esbonio i ryw raddau pam mae absenoldeb nad yw'n gysylltiedig â Covid yn uwch na chyn y pandemig.

Mae nifer yr amserlenni gostyngol sy'n cael eu defnyddio gyda phobl ifanc yn bryder cynyddol i ni. Lle y cânt eu defnyddio'n dda, gall amserlenni gostyngol, gyda chefnogaeth cynllun cymorth bugeiliol, fod yn arf effeithiol i gefnogi pobl ifanc, er enghraifft wrth ddychwelyd i'r ysgol fesul cam ar ôl absenoldeb. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion yn ddiweddar, rydym wedi amlygu pobl ifanc sy'n dilyn amserlenni gostyngol am gyfnod rhy hir a heb adolygiadau priodol, sy'n golygu nad ydynt yn cael amser gwerthfawr yn eu hysgol neu UCD. Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn monitro'r defnydd o amserlenni gostyngol yn ddigon agos, nac yn herio'r defnydd amhriodol arnynt.

**Mae presenoldeb yn parhau'n is o lawer na lefelau cyn y pandemig, hyd yn oed os ydych yn diystyru absenoldeb oherwydd Covid-19**

Mae'r siart isod yn dangos canran y disgyblion a oedd yn absennol o'r ysgol yn ystod y cyfnod rhwng 22/11/2021 a 8/4/2022. Casglwyd data ar absenoldebau oherwydd Covid-19 yn wahanol cyn 22/11/2021 ac ni ellir ei gymharu.




Roedd presenoldeb yn yr ysgol islaw 90% bob wythnos yn ystod y cyfnod hwn, tra'r oedd presenoldeb ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn addysg lawn ddiwethaf cyn y pandemig, yn 2018-2019, ychydig islaw 95%.

**Mae bron i 30,000 o ddisgyblion wedi colli mwy na phythefnos o ysgol eleni oherwydd Covid-19**

Ar y cyfan, mae bron i dri chwarter o ddisgyblion (74.1%) wedi bod yn absennol ar ryw adeg eleni oherwydd Covid-19. Yn y flwyddyn academaidd hon hyd yma (6/9/21 i 6/5/22):


- bu 203,219 o ddisgyblion (46.8%) yn absennol oherwydd Covid-19 am rhwng 0.5 a 5 niwrnod
- bu 88,877 o ddisgyblion (20.5%) yn absennol oherwydd Covid-19 am rhwng 5.5 a 10 niwrnod
- bu 29,516 o ddisgyblion (6.8%) yn absennol oherwydd Covid-19 am fwy na 10 niwrnod

**Effeithiwyd yn fwy ar bresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim na disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim**

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon hyd yn hyn, mae'r bwlch rhwng presenoldeb y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (82.5%) a'r rhai nad ydynt yn gymwys (88.9%) yn 6.4 pwynt canran (o gymharu â bwlch o 5.2 bwynt canran cyn y pandemig a 5.8 pwynt canran y llynedd).

**Mae'r disgybl cyfartalog ym Mlwyddyn 11 wedi colli dros 4 wythnos o ysgol eleni**

Mae'r siart isod yn dangos y presenoldeb cyfartalog ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn. Mae presenoldeb mewn dosbarthiadau meithrin anstatudol yn isel o gymharu â phresenoldeb ar gyfer Dosbarthiadau Derbyn. Mae presenoldeb yn 88%-90% ar gyfer grwpiau Blwyddyn cynradd hyd at Flwyddyn 7, ond mae'n gostwng wedyn yn ystod y grwpiau blwyddyn uwchradd, a phresenoldeb y rhai yn y prif flynyddoedd arholi sydd isaf.





Ar gyfer wythnos olaf tymor yr hydref ac wythnos gyntaf tymor y gwanwyn, roedd presenoldeb ar gyfartaledd ym mhob un o Flynyddoedd 10-13 yn llai na 75%.

Mae'r disgybl cyfartalog ym Mlwyddyn 11 wedi colli dros 4 wythnos o ysgol eleni.

Yn achos disgyblion hŷn sy'n gweithio tuag at gymwysterau mewn ysgolion uwchradd, gallant ddewis peidio â mynd i'r ysgol os byddant yn gwybod bod athro pwnc arbenigol i ffwrdd o'r gwaith ac y bydd athro cyflenwi anarbenigol yn cymryd ei le. Gallant benderfynu ei bod hi'n well iddynt weithio gartref gan ddefnyddio'r adnoddau dysgu sydd ganddynt.

**Mae absenoldeb ysgol yn cydberthyn yn fras â chyfraddau achosion Covid-19**

Mae cydberthyniad bras rhwng absenoldeb o'r ysgol yn 2021-2022 a chyfradd achosion Covid-19 yn y boblogaeth leol yn ôl ardal awdurdod lleol, fel y mae'r siart isod yn ei ddangos.




Mae gan rai awdurdodau lleol gyfradd absenoldeb is o lawer (h.y. presenoldeb uwch) nag y gellid ei ddisgwyl o ystyried cyfradd yr achosion (e.e. Sir Fynwy, Wrecsam, Merthyr Tudful) ac mae gan rai ohonynt gyfradd absenoldeb uwch o lawer nag y gellid ei disgwyl (e.e. Ynys Môn, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin, Caerffili). (ffynhonnell, ffynhonnell)

**Gallai dadansoddi presenoldeb ymhellach fod yn ddefnyddiol**

Nid yw'r ffordd y caiff data presenoldeb ei gyhoeddi ar hyn o bryd yn caniatáu am ddadansoddiadau pellach a allai fod yn ddefnyddiol. Er enghraifft, dadansoddi'r defnydd o godau presenoldeb wedi'u rhannu fesul awdurdod lleol neu grwpiau o ddysgwyr fel y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, neu ddadansoddi nifer y dysgwyr sy'n absennol yn gyson heb unrhyw absenoldeb oherwydd salwch Covid-19. Gall croes-ddadansoddi mwy o ffynonellau data gynorthwyo Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i nodi ble y gall fod problemau presenoldeb sy'n galw am gefnogaeth genedlaethol neu leol. Rydym yn parhau i weld codau presenoldeb gwahanol yn cael eu defnyddio'n anghyson ar draws ysgolion unigol.

**Risgiau a chanlyniadau**
Risgiau a chanlyniadau tymor byr a thymor hwy i ddysgwyr.

**Mwy o ganlyniadau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol**

Yn Adroddiad Blynyddol 2020-2021 PAEM, adroddom fod y tarfu a achosodd y pandemig wedi arwain at heriau penodol i'r dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd llawer ohonynt wedi arfer cael cymorth gan athro neu gynorthwyydd addysgu yn yr ystafell ddosbarth ac, yn aml, nid oedd hyn ar gael oherwydd prinder cymorth oedolion neu nid oedd yn bosibl yn yr un ffordd pan roedd dysgwyr yn gweithio gartref. Parhaodd darparwyr i chwilio am ffyrdd gwahanol ac arloesol yn aml o helpu'r dysgwyr hyn i barhau â'u dysgu, er bod dysgwyr ag ADY yn aml wedi'i chael hi'n anodd cymryd rhan mewn dysgu ar-lein, o bell. Roedd y tarfu hefyd wedi arwain at oedi yn asesiadau anghenion dysgu ychwanegol rhai dysgwyr. Er bod bron pob ysgol arbennig ac UCD wedi aros ar agor trwy gydol y pandemig, bydd parhau â chymorth ar gyfer anghenion emosiynol, corfforol ac addysgol y dysgwyr agored i niwed hyn yn elfen bwysig o fynd i'r afael ag effaith hirdymor y pandemig ar ddysgwyr yng Nghymru. (ffynhonnell)

**Mae nifer y dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) ar yr un lefel ag yr oedd cyn y pandemig**

Roedd nifer y dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) yn 2020-2021 (2,186) yn debyg iawn i'r cyfartaledd dros y 3 blynedd cyn y pandemig (2,149) (ffynhonnell).


**Yr effaith ar y sgiliau y mae eu hangen i ddysgu**

Nododd adroddiad blynyddol PAEM hefyd ei bod hi'n anodd nodi effaith lawn y tarfu ar ddysgwyr, a deall yr effeithiau tymor hwy ar feysydd fel medrau cyfathrebu, annibyniaeth a chymdeithasol dysgwyr. Bydd parhau i fonitro a chefnogi'r meysydd hyn yn elfen hanfodol o waith ymarferwyr i'r dyfodol. (ffynhonnell)

**Er gwaethaf cyllid ychwanegol i wasanaethau, cafodd llai o ddysgwyr gwnsela'r llynedd nag yn y blynyddoedd cyn y pandemig**

Mae Covid-19 wedi effeithio'n andwyol tu hwnt ar les emosiynol ac iechyd meddwl rhai dysgwyr. Mae gwasanaethau cwnsela wyneb yn wyneb i gefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl dysgwyr ar gael yn ardaloedd pob awdurdod lleol drwy ysgolion i ddysgwyr ym Mlwyddyn 6 ymlaen a, hefyd, trwy wasanaethau ar-lein a ffôn ac wyneb yn wyneb mewn lleoliadau cymunedol (mae'r rhain yn amrywio yn ôl ardal). Yn ystod cyfnodau clo ac, i raddau amrywiol, yn ystod cyfnodau pan oedd cyfyngiadau ar waith oherwydd Covid-19, yn gyffredinol, roedd gwasanaethau cwnsela ar gael ar-lein neu dros y ffôn yn unig.


Mae'r siart isod yn dangos nifer y dysgwyr a oedd yn cael cwnsela yn ôl ardal pob awdurdod lleol dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu £1.25 miliwn yn ychwanegol o gyllid ar gyfer gwasanaethau yn 2020-2021, gwelodd gwasanaethau yn hanner yr awdurdodau lleol (11 o 22) ostyngiad yn y nifer a drodd at wasanaethau yn y flwyddyn honno o gymharu â 2019-2020 (tarfodd Covid-19 yn rhannol), a gwnaeth gwasanaethau mewn 17/22 ardal gwnsela llai o ddysgwyr nag yn 2018-2019 (cyn y pandemig). Gwasanaethau mewn 1 awdurdod lleol yn unig (Abertawe) fu'n gweithio gyda nifer uwch o lawer o ddysgwyr yn 2020-2021 o gymharu â'r flwyddyn cyn y pandemig). (ffynhonnell)




Nid yw ffigurau 2020-2021 ar gyfer nifer y dysgwyr sy'n cael cwnsela yn adlewyrchu'r galw o reidrwydd. Mae gwybodaeth gan wasanaethau yn awgrymu bod y galw'n uwch, ond bod gwasanaethau'n cael trafferth bodloni'r galw oherwydd effaith Covid-19 ar argaeledd cwnselwyr a chyfyngiadau ar weithredu.

**Mae plant a phobl ifanc yn aros yn rhy hir am apwyntiad cyntaf gyda CAMHS arbenigol**

Mae'r amseroedd aros i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu hatgyfeirio i Wasanaethau Iechyd Meddwl arbenigol Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r siart isod yn dangos y canran fesul mis sydd wedi aros yn hwy na'r amser targed ar gyfer eu hapwyntiad cyntaf, sef 4 wythnos. Ers Mehefin 2021, mae dros hanner y rhai a atgyfeiriwyd i CAMHS wedi bod yn aros dros 4 wythnos am eu hapwyntiad cyntaf. (ffynhonnell)





Mae gallu manteisio ar wasanaeth CAMHS yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn arbennig o heriol. Yn Ionawr 2022, roedd 68% o bobl ifanc a oedd yn aros am CAMHS yng Nghymru yn dod o dan y bwrdd iechyd hwn, sy'n gwasanaethu 2 yn unig o'r 22 awdurdod lleol, ac mae 91% o bobl ifanc sy'n aros ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi bod yn aros am fwy na 4 wythnos. (ffynhonnell)

**Effaith**
Yr effaith ar ddysgu a chyrhaeddiad disgyblion.
A yw absenoldeb wedi arwain at lefel uwch o ddadgofrestru disgyblion ac unrhyw orgyffwrdd ag addysg ddewisol yn y cartref

**Mae'r effaith ar gyrhaeddiad yn anodd ei mesur**

Mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar asesiadau ac arholiadau allanol ac ni ellir cymharu data ar gymwysterau a ddyfernir â data cyn y pandemig. Felly, nid yw'n bosibl mesur effaith y pandemig ar gyrhaeddiad yn gywir. Fodd bynnag, mae'r cydberthyniad rhwng presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad wedi bod yn gryf yn hanesyddol.

Yn y blynyddoedd cyn y pandemig, byddai Estyn yn ystyried cyfran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 heb gymhwyster ffurfiol – ni chyhoeddwyd y data hwn ar gyfer 2021. O'r data sydd ar gael, mae'n werth nodi cyfran y graddau U a ddyfarnwyd i ddisgyblion a safodd TGAU Saesneg a mathemateg yng Nghymru yn 2021, a gynyddodd yn sylweddol o gymharu â'r flwyddyn gynt, fel y dangosir yn y siart isod:




I roi syniad o nifer y dysgwyr yr effeithiwyd arnynt, dyfarnwyd gradd U mewn TGAU Mathemateg: Rhifedd i ychydig dros 800 o ddysgwyr yn 2021. (ffynhonnell)

**Fe wnaeth nifer y dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref bron â dyblu yn ystod y pandemig ac mae'r un maint â chyfanswm poblogaeth ysgolion mewn awdurdod lleol bach**

Roedd nifer y dysgwyr a oedd yn cael addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru yn cynyddu'n gyson cyn y pandemig. Nifer cyfartalog y disgyblion a oedd yn cael addysg ddewisol yn y cartref rhwng 2016 a 2019 oedd 2,068 (ni ellir cymharu data 2019-2020 gan ei fod yn cynnwys 14 yn unig o'r 22 awdurdod lleol oherwydd problemau casglu data yn ystod y pandemig). Yn 2020-2021, roedd 4,022 o ddysgwyr yn cael addysg ddewisol yn y cartref – bron ddwywaith cymaint â'r cyfartaledd 3 blynedd cyn y pandemig. Ceredigion o hyd sydd â'r gyfradd uchaf o ddysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, gyda Sir Gaerfyrddin yn parhau â'r nifer uchaf o ddysgwyr, fel y bu yn gyson cyn y pandemig. Yn Ynys Môn a Thorfaen, ill dau â chyfraddau isel yn hanesyddol, mae cyfradd y dysgwyr sy'n cael addysg gartref wedi mwy na dyblu ers y flwyddyn cyn y pandemig. (ffynhonnell)

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dadansoddiad o'r dysgwyr sydd wedi symud i gael addysg ddewisol yn y cartref, felly nid yw'n bosibl croes-ddadansoddi'r data ymhellach, er enghraifft yn ôl grŵp oedran, anghenion dysgu ychwanegol neu gymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim. Gallai dadansoddiad o'r fath nodi meysydd i gael cymorth lleol neu genedlaethol. Ar lafar, mae'r rhesymau pam y symudodd rhieni eu plant i addysg gartref yn ddiweddar yn cynnwys pryderon am eu hiechyd corfforol eu hunain neu iechyd corfforol eu plentyn o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19, pryderon am orbryder eu plentyn ynghylch dychwelyd i'r ysgol, pryderon nad yw anghenion eu plentyn yn cael eu bodloni yn yr ysgol neu, yn syml, penderfyniad bod dysgu gartref wedi gweithio'n dda i'r teulu ar ôl gorfod rhoi cynnig arno yn ystod y cyfnod clo, a'u bod yn dymuno parhau â'u haddysg gartref.

Mae'n werth amlygu bod cyfanswm nifer y disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ar draws Cymru bellach yn fwy na nifer y dysgwyr ym Mlaenau Gwent a bron cymaint ag ym Merthyr Tudful ac Ynys Môn. (ffynhonnell)

Oherwydd pwysau llwyth gwaith wedi'u hachosi gan y pandemig, oedodd Llywodraeth Cymru ei chynllun i gyflwyno canllawiau statudol newydd i awdurdodau lleol ar addysg

gartref. Ar hyn o bryd, bach iawn o gyfrifoldebau a phwerau sydd gan awdurdodau lleol o ran addysg ddewisol yn y cartref.

**Nid oes effaith glir ar hyn o bryd ar gyfran y dysgwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**

Effaith bosibl y pandemig yw bydd llawer o ddysgwyr yn y pen draw ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Fodd bynnag, roedd cyfran y dysgwyr a oedd yn NEET ar ôl Blwyddyn 11 yn 2021 ychydig yn is nag ydoedd yn y ddwy flynedd gynt. Roedd canran y disgyblion nad oedd eu cyrchfan yn hysbys wedi cynyddu ychydig (i 1.1% o 0.9% yn 2020). Mae'r arolwg wedi'i seilio ar arolwg cyrchfannau Gyrfa Cymru sy'n cofnodi gweithgaredd hysbys diwethaf disgyblion ar 31 Hydref 2021. (ffynhonnell)

Nid yw pob dysgwr yn parhau â'i gyrchfan cychwynnol ac amcangyfrifir bod cyfran wirioneddol y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru yn uwch o lawer nag yr awgryma'r arolwg cyrchfannau. Amcangyfrifodd arolwg blynyddol y boblogaeth fod 9.4% o bobl ifanc 16 i 18 oed yn NEET ar 31 Mawrth 2021, a 15.3% o bobl ifanc 19 i 24 oed. Mae'r ffigurau hyn yn debyg yn fras i'r amcangyfrifon yn y blynyddoedd cynt. (ffynhonnell)

**Mae gormod o alw ar y gwasanaethau i ddisgyblion sy'n absennol yn gyson**

Cyn y pandemig, roedd gwasanaethau cymorth awdurdod lleol – trwy swyddogion a elwir yn aml yn swyddogion lles addysg – yn gweithio gyda theuluoedd ac ysgolion pan ddisgynnodd presenoldeb disgybl islaw 80%. Yn ystod y pandemig, a hyd yn hyn, mae cymaint yn fwy o ddisgyblion â phresenoldeb islaw 80% fel y bu'n rhaid i wasanaethau awdurdodau lleol newid y trothwyon ar gyfer ymgysylltu. Mae hyn yn golygu bod swyddogion yn gweithio gyda'r disgyblion hynny â'r presenoldeb isaf, ond ni allant gynorthwyo ym mhob achos lle y mae presenoldeb islaw 80%. Fel arfer, nid yw ysgolion yn gallu gwneud yn iawn am y diffyg capasiti mewn gwasanaethau awdurdodau lleol. Yn anochel, mae hyn yn golygu bod awdurdodau lleol yn methu achosion y byddent wedi mynd i'r afael â nhw'n hanesyddol, neu mae'r gwasanaeth wedi'i deneuo o ganlyniad i ysgwyddo mwy o lawer o achosion na'r hyn a wnaed yn hanesyddol. Rhwng yr awdurdod lleol a gwasanaethau ysgolion, mae llai o gapasiti i ymgysylltu â theuluoedd sydd â disgybl sy'n absennol yn gyson ar adeg pan mae angen ymdrech ddwys i ailsefydlu arferion presenoldeb da gyda'r teuluoedd hyn.

**Effeithiolrwydd polisïau**
Effeithiolrwydd polisïau a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru.
Lefel ac effeithiolrwydd y gweithredu a'r gefnogaeth gan ysgolion, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru.
Pa mor effeithiol yr ymgysylltir â rhieni a'u cefnogi.

**Mae arolygiadau diweddar yn amlygu ysgolion ag arfer da presennol**

Rhai detholiadau o adroddiadau arolygu ysgolion a arolygwyd ers Chwefror 2021, sy'n amlygu ysgolion â chymorth effeithiol ar gyfer presenoldeb da:

Ysgol Gynradd Gadeiriol San Joseff, Abertawe: 'Mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion yn gynhwysfawr ac yn drylwyr. Mae'r ysgol yn cynnig cymorth bugeiliol i ddisgyblion agored i niwed sy'n colli ysgol, a chaiff absenoldeb cyson ei herio.' (ffynhonnell)

Ysgol Gynradd Pontnewydd, Torfaen: ‘Mae’r ysgol yn cadw cofnodion o ansawdd da am bresenoldeb ac absenoldeb o’r ysgol ac mae’n mynd i’r afael yn dda ag absenoldeb cyson. Mae systemau i gefnogi a herio presenoldeb isel yn effeithiol ac yn cael eu cymhwyso yn gyson gan arweinwyr a staff. Mae’r ysgol yn gweithio’n dda gydag asiantaethau allanol i fynd i’r afael â phroblemau presenoldeb gwael.’ (ffynhonnell)

Ysgol Gymraeg Ystalyfera - Bro Dur, Castell-nedd Port Talbot: ‘Mae gan yr ysgol systemau cadarn i fonitro a hybu presenoldeb da. Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gyda’r awdurdod addysg lleol er mwyn cynnig cefnogaeth i ddisgyblion ailintegreiddio’n llwyddiannus yn sgil y pandemig.’ (ffynhonnell)

Ysgol Stanwell, Bro Morgannwg: ‘Mae gan yr ysgol weithdrefnau cryf i hyrwyddo presenoldeb disgyblion, sy’n cynnwys monitro’n ofalus, cyfathrebu â rhieni a dathlu llwyddiant.’ (ffynhonnell)

**Methodd cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cwnsela gynyddu nifer y dysgwyr sy’n cael gwasanaethau**

Fel y nodwyd mewn ymateb i adran flaenorol, er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu £1.25 miliwn yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cwnsela yn 2020-2021 i ddelio â chynnydd a ragwelwyd mewn galw ers dechrau’r pandemig, gwelodd gwasanaethau mewn hanner o ardaloedd awdurdodau lleol (11 o 22) ostyngiad mewn gwirionedd yn nifer y dysgwyr a oedd yn troi at wasanaethau yn y flwyddyn honno o gymharu â 2019-2020 (tarfodd Covid-19 yn rhannol), a gwnaeth gwasanaethau mewn 17/22 ardal gwnsela llai o ddysgwyr nag yn 2018-2019 (cyn y pandemig). Gwasanaethau mewn 1 awdurdod lleol yn unig (Abertawe) weithiodd gyda nifer uwch o lawer o ddysgwyr yn 2020-2021 o gymharu â’r flwyddyn cyn y pandemig. (ffynhonnell)

Nid yw ffigurau 2020-2021 ar gyfer nifer y dysgwyr sy’n cael cwnsela o reidrwydd yn adlewyrchu’r galw. Mae gwybodaeth gan wasanaethau yn awgrymu bod y galw’n uwch ond bod gwasanaethau wedi cael trafferth bodloni’r galw oherwydd effaith Covid-19 ar argaeledd cwnselwyr a chyfyngiadau ar weithredu.

**Canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar addysg gartref**

Fel y dywedwyd yn flaenorol, mae nifer y dysgwyr sy’n cael addysg ddewisol yn y cartref wedi dyblu i bob diben yn ystod y pandemig ac mae bellach yr un maint â chyfanswm poblogaeth ysgolion awdurdod lleol bach. Mae’r diffyg canllawiau statudol i awdurdodau lleol yn fater y bydd Llywodraeth Cymru o bosibl eisiau ei ystyried ar frys, i sicrhau bod y dysgwyr yr effeithiwyd arnynt yn derbyn addysg o ansawdd addysg a chymorth ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, a bod gwasanaethau ar gael iddynt i gefnogi eu lles, yn unol â hawliau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

**Arall**
Cofnodwch unrhyw safbwyntiau eraill sydd gennych isod.

Dewiswch o blith un o’r opsiynau canlynol i gadarnhau a oes gennych gytundeb unrhyw drydydd parti y cyfeiriwch atynt yn eich tystiolaeth y gallwch rannu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i ddatgelu pwy ydynt a’u bod yn deall y gall y wybodaeth gael ei chyhoeddi.

- (•) Cadarnhaf fod unrhyw drydydd parti y cyfeiriais ato yn fy nhystiolaeth wedi cytuno y gallaf rannu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i ddatgelu pwy ydynt a’u bod yn deall y gall y wybodaeth gael ei chyhoeddi.
- ( ) Nid oes gennyf gytundeb un neu fwy o’r trydydd partion y cyfeiriais atynt yn fy nhystiolaeth.
- ( ) Nid wyf wedi cyfeirio at unrhyw drydydd partïon yn fy nhystiolaeth.